Cyfres Llanbedr | Gorffennaf, 1930. | Cyf. 30. Rhif 7.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. — Y Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Hanes Capeli'r Enwad—
Gellionnen.
Yr Ysgol Sul.
Y Parch. Evan Lewis, Cilgwyn, Ceredigion.
Ton—"Dos a Gweddia."
Catecism.
Y Cymanfaoedd Canu.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

Gyrrwch archeb yn union am

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD—

PERLAU MOLIANT

(SOLFFA)

CASGLIAD O EMYNAU A THONAU
AT WASANAETH EGLWYSI UNDODAIDD CYMRU.

Prisiau :—

Lledr Hanner Rhwym, 4/6. | Lledr Llawn Rhwym, 5/6.

Lledr Morocco ac India Paper, 7/-.

Cludiad copiau unigol, 6ch. yn ychwanegol.

Derbynir archebion (*gyda blaendal*) oddiwrth Eglwysi a phersonau unigol yn awr. Anfoner at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. GORFFENNAF, 1930. Cyf. XXX. Rhif 7.

Gweinidogion Gellionnen.

Codwyd y Capel Cyntaf yn 1692.

(This place of worship for the use of a Society of Protestant Dissenters was first erected 1692 under the patronage of the Hon. Bussy Mansel Esq. and rebuilt 1801 under the direction of the pastor for the time being, the Rev. Josiah Rees in the 30th year of his ministry hereat).

Hen Eglwys y Capten Jenkin Jones.

Robert Thomas	1692—
Lewis Davies	1692/3—1712
Llewelyn Bevan	1700—1724
Roger Howell	1712—1742
Joseph Simmons	1724—1758—
Evan Williams	1759—
Thomas Davies	?
Josiah Rees	1764—1804
Thomas Rees, Ll.D.	1805—1806
David Oliver	1806—1814
John James	1815—1864
John Evans	1862—1885
William Jenkin Davies	1887—1889
John Fisher Jones	1889—1892
Thomas Joseff Jenkins	1895—1905
William Alfa Richards	
David Gwenog Rees	1912—1930

Hanes Capeli'r Enwad yng Nghymru.

GELLIONNEN.

YMAE cynulleidfa Gellionnen yn mynd yn ol i'r ail ganrif ar bymtheg a disgyn o un o gynulleidfaoedd anghydffurfiol hynaf Cymru. Codwyd y capel cyntaf yn 1692 ac o'r adeg hon o leiaf y mae'r hanes yn ddifwlch.

Dau enw y sydd ynghlwm a'r hanes ydyw eiddo Jenkin Jones a Robert Thomas. Mab y Tymawr, Llanddetty, Brycheiniog ydoedd Jenkin Jones—gwr a hanes rhamantus iddo a gwnaeth ddiwrnod da o waith. Fe'i haddysgwyd yn Rhydychen, bu'n gapten yn y fyddin ac offeiriad Presbyteraidd ond odid. Cafodd erlid a charchar a mynnir mai efe a ddylanwadodd ar William Jones, Rhydwilym yng ngharchar Caerfyrddin gan ei ennill i fod yn Fedyddiwr. Nid wyf yn sicr na ddylasai Bedyddwyr y Gorllewin anwylo enw Jenkin Jones. Y mae yna ddau Jenkin Jones a'u hanes yn gymhleth ond deil yr awdurdodau diweddar y gellir bod yn berffaith sicr mai y Capten Jenkin Jones, wedi llawer o erlid a wynebu stormydd lawer a gafodd drwydded i bregethu yng Nghilgerran yn 1672.

Yn Seren Gomer am Dachwedd 1901 (tdd. 321—324) ceir rhestr o weinidogion Presbyteraidd a lafuriai yng Nghymru o 1653 i 1660 ac yn eu plith ceir "Jenkin Jones, Llanthetty (Brycheiniog)" wedi ei gymeradwyo yn 1657. "Admitted to Rectory . . . 18 Nov. 1657 ; 'pastor of Church' (Pur. M. p. 159)." Hen filwr ydoedd a cheir ef yn cynnig "gwŷr da Brycheiniog" i Gromwell, a diamau mai Jenkin Jones oedd pleidiwr grymusaf y senedd ym Mrycheiniog.

O dan Ddeddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru yn 1649 fe geir enw Jenkin Jones fel un o'r "cymeradwywyr" o bregethwyr i gael tystysgrif i bregethu. Fe'i ceir yn "torri bara" bob mis ym Merthyr. Y mae'n anodd ei symio i fyny. Dywed Dr. T. Richards (P.M. td. 208) "First came Jenkin Jones, a Catabaptist, a term used to describe those who 'dyd speake and hold oppynyon agaynst the baptisme of children. He was Congregational in church-government, practised *free communion*, and in 1650 tried to dissuade the Independents of Llanigon from going over to the 'close' Baptists." Fe welir dylanwad Jenkin Jones yng ngrym Anghydffurfiaeth Merthyr.

Dyna'r gwr ond odid a blannodd Anghydffurfiaeth yn y Cylch.

Yn 1661 fe geisid rhodd (Clerical Subsidy 1661) oddiwrth bob offeiriad ac y mae'r rhestr yn ddiddorol oherwydd dengys pryd y trowyd llawer offeiriad o'i swydd.

"Cadoxton C. Jenkin Jones 1660—1 (Henry Nicholls £10)." Fe welir felly fod Jenkin Jones wedi colli Cadoxton cyn 1661 gan mai Henry Nicholls yw'r offeiriad a rydd *subsidy* i'r brenin.

Yn yr Episcopal Returns am 1669 fe geir a ganlyn :—

Diocese of Llandaff.	Parishes and Conventicles in them.	Sect.	Members.	Qualitie.	Heads and Teachers
	(Deanery of Groneath)	Quakers	Uncertaine	...	
	CADERSTON (Cadoxton) at the house of Mary Pritchard, widdow.				
	BAGLAND. entertained by Robert Thomas.	Catabaptists Anabaptists Independents	About 20	...	The said Robert Thomas

Erbyn 1672 fe geir rhestr y trwyddedau, a Jenkin Jones yn cael trwydded trwy law Stephen Hughes yn Mai '72 yng Nghilgerran, Sir Benfro.

"Baglan I. Robert Thomas (tr.) of Baglan. Silenced when candidate in Glamorgan 1662. 2. Robert Thomas's house.

Quakers. Cadoxton ('Caderston). Mary Pritchard (widow)'s house."

Nid oes betruster am ddylanwad Robert Thomas a cheir ef yn 1675 yn weinidog ar Annibynwyr gwasgarog Dyffrynnoedd Nedd a Thawe.

Yn 1675 ysgrifennodd Mr. Henry Maurice "a catalogue of all the congregated churches in the general counties of Wales, together with the names of their pastors and other church officers."

"There is another church, commonly called the church of Cadogstone, who meet now commonly at Baglan; Mr. Robert Thomas being their pastor, Mr. Jacob Christopher and Richard Cradock their teaching elders. What other officers they have I know not. Their judgement is Independent; some of them are Baptists, as hath been affirmed. Part of them also lie about Llangyfelach, as also about Cynffyg, in the said county. There are also several scattered Baptists inhabiting about Gower land, Llangyfelach, the borders of Caermarthenshire, as also about Baglan, who make up, as I suppose, one church: Lewis Thomas, Howell Thomas (if he be alive) and Thomas Joseph, being their teachers."

Yr oedd Robert Thomas yn fyw tua 1690—1692 canys ceir yn "Freedom after Ejection" y cofnod hwn:—

Mr. Robt. Thomas Dead. *a godly old man.*	Pastor of a Church att Langyfelach, Glamor:	hath an Estate.

Gan fod cofnod am Robert Thomas yn y "Freedom after Ejection" y mae'n awgrymu iddo fyw hyd ymyl y cyfnod o leiaf, a chan y gwyddom godi Capel cyntaf Gellionnen yn 1692, yr ym yn teimlo fod Robert Thomas wedi pontio'r cyfnod erwydr a'r gynulleidfa yn dod gyda'r amseroedd gwell a deddf Goddefiad 1689 yn barod i godi tŷ i addoli Duw ond yn petruso ac ofni gan ei godi ar y mynydd ymhell o ddwndwr y byd.

Ym "Mhiwritaniaeth a Pholitics" tdd. 190—110 dywed Dr. Tom Richards,—"Nid oedd rhai o wŷr mawr Cymru heb ddangos caredigrwydd i ymneilltuwyr. Disgwyliem hynny oddiwrth Bussy Mansell o Britonferry, ac yntau wedi bod yn Ddirprwywr o dan Ddeddf y Taeniad, wedi eistedd yn Senedd y Saint yn 1653. Nid oes fawr amheuaeth nad ef a roddodd dir i godi capel Gellionnen arno * * * cydymffurfiodd yn 1660 ac a enwodd John Hutton yn ficer Llangynwyd yn lle Samuel Jones."

Y mae'n debig i hen eglwys Jenkin Jones a Robert Thomas ymrannu er mwyn cyfleustra addoli ond odid cyn diwedd y ddwyfed ganrif ar bymtheg yn bump:—Quarrel Bach (Castellnedd), Tyrdwncyn (Mynyddbach), Cwmllynfell, Blaengwrach a Gellionnen. Y mae'n anodd casglu beth oedd syniadau yr addolwyr cyntaf hyn ar hen fynydd Gellionnen. Digon tebig nad oedd nemor

wahaniaeth rhwng syniadau cynulleidfa Gellionnen a rhyw gynulleidfa Anghydffurfiol arall. Beth bynnag am hyn, y mae'n ddiddorol croniclo'r ffaith i Lewis Davies (1693—1712) sefydlu Ysgolion Sul mewn amryw leoedd a maentumir fod Ysgolion Sul yn y Quarrel Bach a Thyrdwncyn yn 1697, bedwar ugain mlynedd cyn dechrau mudiad Robert Raikes. Yn rhestr Dr. John Evans, 1715, fe'i ceir yn Annibynnol.

Cwmllynfell, etc. I. Llewelyn Bevan, : 600 : 15 single and 14 double votes.
Roger Howell, John Davies removed.

Dywed Dr. Rees "Nonconformity in Wales,"—

"Soon after the breaking out of the Methodist Revival, some Presbyterian Ministers, who previously sympathized with Mr. Jenkin Jones's views saw a convenient opportunity to declare their sentiments openly. Among these were Mr. Samuel Jones of Capel Sion, Mr. Samuel Thomas of Carmarthen, Mr. Roger Howell, of Gellyonen and some others who might be named."

Ni fedr neb ddweyd faint oedd dylanwad Arminiaeth Roger Howell ar gynulleidfa Gellionnen ond yn 1767 ordeiniwyd Josiah Rees (er ei fod yn pregethu yma ac yntau yn y Coleg mor fore a 1764) a bu yma am ddeugain mlynedd. Erbyn 1785 yn ol tyst iolaeth ei fab yr oedd yn Ariad ac wedi hyn yn Undodwr. Ni fedr neb amau ei fenter oherwydd iddo ef y perthyn y clod o gyhoeddi y Cylchgrawn Cymreig cyntaf (ag eithrio cynnyg Lewis Morris) "Trysorfa Gwybodaeth neu Eurgrawn Cymraeg." Yr oedd Josiah Rees yn Undodwr o ysgol Priestley cyn diwedd ei oes. Ond dipyn yn gymysg oedd y gynulleidfa canys dywedai (Ymof. 1891 td. 201): "Here is a people so unstable and unsettled that unless they have some man to succeed me of the greatest prudence and management, they will split into a thousand pieces—a hot-headed Unitarian would soon knock them up."

Yn Adroddiad Lyons 1811, ceir,—

"June 25. The meeting house which is large and commodious stands alone upon a mountain and is at considerable distance from any town or village, yet the congregation was respectable both to numbers and appearance. The people of this congregation and neighbourhood are greatly indebted to the labours of the late Rev. Josiah Rees, for the enlarged and honourable views which they now entertain respecting the Supreme Being, etc. They are now zealous Unitarians and Mr. Oliver whose name as a missionary

has frequently appeared in the reports of the Unitarian Fund is their minister."

Erbyn 1816 y mae Wright y cenhadwr yn ymweled a Gellionnen ac yn tystio,—

"Gellionen. Here is a large and well built Meeting House among the mountains of which some Calvinists who have no kind of claim to it endeavoured lately to possess themselves but were defeated in their attempts. This place was the scene of the useful labour of the late Mr. Josiah Rees. Mr. James is now the Minister here and at Bridgend and Bettws."

Pennod drist yn hanes yr Eglwys ydyw'r bennod pan droes y gweinidog y Parch. David Oliver yn Galvin tua 1814 a gwnawd cais yn 1816 (a maentumir fod y Parch. Daniel Evans, Mynyddbach, wrth wraidd y cynnyg) i feddiannu'r Capel drwy drais i'r Trindodiaid. Ni lwyddodd, a gwell yw tynnu llen tros bennod drist.

Yn ystod yr argyfwng hwn yr oedd y gynulleidfa yn ffodus yn ei gweinidog y Parch. John James, ac ef ond odid a foldiodd gymeriad y gynulleidfa yn ystod ei weinidogaeth hir hyd ei farw yn 1864.

Rywbryd yn ystod hanner olaf y ganrif o'r blaen (tua 1862), cododd y Parch. John Evans ysgoldy yn Nhrebanos—cadwai ysgol yma ar ddyddiau'r wythnos a gwasanaeth i bobl y cylch ar y Sul. Gwasanaethodd felly am ddeng mlynedd ar hugain ond yn 1893 teimlid fod angen Capel yma a chodwyd Capel y Graig, Trebanos. Agorwyd y Capel newydd ar Dachwedd 7, 1894. Erys yn un o gapeli harddaf yr enwad ac yn un o'n cynulleidfaoedd mwyaf byw.

Y mae'r hen gynulleidfa unwaith eto fel diadell heb fugail—yr hen fugail yn edrych yn drist ar y dalar wrth ffarwelio a hithau yn tremio i'r dyfodol gan wrando a glyw lais bugail newydd. Bydded iddi gerdded yn sicr a'i llygaid wedi ei bedyddio a'r wawr dragwyddol.

O.

Y Gymanfa Ganu. — Awgrymir byth a beunydd mai doeth fuasai apwyntio "pwyllgor dethol" o chwech, dyweder, er dewis o'r tonau a'r anthemau a awgrymir. Dyweder fod pob cynulleidfa yn anfon tair tôn ar gyfer y Gymanfa Ganu, gan adael y gwaith o ddewis y goreu i'r "pwyllgor dethol" — y pwyllgor cyffredin i wneud pob trefniad arall, fel o'r blaen. Beth yw barn y gwahanol gynulleidfaoedd? A gawn ni wybod yn y Pwyllgor nesaf?

PWYLLGOR GWEITHIOL Y GYMDEITHAS.—Cynhelir Cyfarfod o'r Pwyllgor uchod yng Nghapel-y-Bryn, Cwrtnewydd, nawn Llun, Gorffennaf 14, am 2 o'r gloch. Disgwylir y gweinidogion ac un cynrychiolydd o bob eglwys i'r cwrdd hwn. Boed i bob eglwys benodi cynrychiolwr. Dyma gyfle i ystyried unrhyw fater ag a all fod o bwys a budd i'n heglwysi.

E. O. Jenkins.

Yr Ysgol Sul.

(The Sunday School and its Story by W. T. Bushrood, M.A. The Lindsey Press, 5, Essex Street, Strand, W.C.2. *Price*—6*d*).)

NID gwaith rhwydd yw adolygu pamffled o ryw ddeg tudalen ar hugain ac fe faddeu y Cyhoeddwyr a'r Awdur imi am beidio. Mwy diddorol ydyw blewyna ar hyd y llwybr er codi awydd ynghalon rhywun i brynu'r pamffled a'i ddarllain. O droi'i dudalennau cofiwn am eiriau y Dean Inge, "Some are better endowed with Spiritual gifts than others and are called to ascend greater heights; but the power which leads up the pathway to reality and blessedness is, as Plotinus says, one which ALL possess, though *few* use it." Nid y perchennog mwyaf, chwedl Plotinus yw'r gweithiwr dygnaf ac y mae ambell wr digon syml wedi gwneud diwrnod da o waith.

Bu yna adeg pan dueddai Cymru gyda'i gilydd at y safbwynt secularaidd ond y mae'r rhod wedi troi, ac erbyn heddiw myn pob Cyngor Addysg yng Nghymru ddysgu'r Beibl yn yr Ysgolion. Y mae gan yr Athro Jacks baragraff diddorol. "Swydd Addysg Elfennol yw arwain ymlaen at Addysg Ganolradd, a honno yn ei thro at Addysg Uwchraddol. Swydd y dair yw arwain at yr Addysg uchaf a ddaw o gyflawni'n ffyddlon waith bywyd, ac i'r uchaf i gyd a ddysg i ddynion ufudd-dod trwy'r pethau a ddioddefant—gwers y Groes."

Y mae'r Athro yn sôn am ryw Ysgolfeistr yn awgrymu awyrgylch grefyddol yn yr Ysgol nid trwy ddysgu credo na chyffes ond trwy dyfu crefydd *at use* yr Ysgol.

Yn ei thraethawd ar Addysg yng Nghymru gan Dr. Gwenan Jones, fe ddengys wendid yr addysg gynt :—

> "Pan sefydlodd Griffith Jones ei ysgolion, amcan syml iawn oedd ganddo, sef dysgu'r bobl i ddarllen a'u gwreiddio yn egwyddorion crefydd. At hynny hefyd yr ymgyrhaeddai Ysgolion Sabothol Thomas Charles. Ceisient 'oleuo'r bobl' drwy y Beibl a gwybodaeth ysgrythyrol ac athrawiaethol, a chyflawnasant eu gwaith yn rhagorol. Ond yn anffodus torasant hwy a'r ysgolion elfennol cyntaf (a ychwanegodd ysgrifennu a rhifo at y gofynion) lwybr cyfyng iawn ar gyfer addysg y dyfodol. Addysg

llyfr a gymeradwyent, ac o hynny ymlaen dyna'r math ar wybodaeth a berchid yn Nhraddodiad yr Ysgol ac a ddeellid fel ' addysg a diwylliant ' gan y bobl."

Erbyn heddiw deellir yn well ystyr diwylliant, a chyda'r ystyr well, diddorol ydyw taflu cip tros hanes y Mudiad. Rhyw 150 o flynyddoedd yn ol tua'r flwyddyn 1780 sefydlodd Robert Raikes ei Ysgolion Sul yng Nghaerloyw, a naturiol felly dathlu'r amgylchiad eleni. Amseroedd creulon a didrugaredd oedd yr amseroedd—y carcharau'n llawn a chosp ddidrugaredd am bob trosedd. Ceisiai Raikes leddfu dioddef y trueiniaid ond canfu mai lleddfu'r dioddef a wnai ac nid symud yr achos. Ni wyddai beth i wneud a throes at hen wraig o weld mwstwr isel y plant, ac meddai hi,—" Sundays, the pin factory yonder isn't working, and so there's more children in the streets, and, Sir, *then it's like hell.*"

Ni wyddys a ddylanwadwyd arno gan gynllun y Parch. Thomas Stock, M.A., ym Mhentref Ashbury, o grynhoi'r plant i gangell yr Eglwys ar y Sul er cyfrannu addysg grefyddol iddynt, ond sicr fod y ddau yn cydweithio bron o'r cychwyn. Yn 1777 apwyntiwyd Stock yn Brifathro Ysgol yr Eglwys Gadeiriol yng Nghaerloyw yn ogystal a Rheithor Eglwys Ioan Fedyddiwr yn yr un dref.

Cynorthwyodd yr hen wreigan y bu Raikes yn ymgomio a hi y Sul hwnnw a llwyddwyd i gael pedair yn y cylch a fedrai ddarllain ac ysgrifennu ac a oeddent yn foddlon cadw ysgol ar y cynllun newydd mewn tai preifat am swllt y dydd.

Cychwynwyd y cynllun ym mis Gorffennaf, 1780. Cydiodd y mudiad ynghalon y werin. Yr oedd y strydoedd yn wâg a distaw ar y Sul. Ym mis Mai, 1874, dywed Raikes " Several of the Clergy in the County are setting forward a mode of general instruction for the children of the lower classes of the people by establishing schools for their reception on Sundays."

Erbyn 1788 dywed John Wesley am y Canu ym Molton, rhyw gant o blant " selected out of our Sunday Schools." Hyd yn oed yn 1784 yr oedd yn Leeds 26 o Ysgolion Sul gyda 2,000 o blant a 45 o athrawon.

Yn 1785 sefydlwyd Cymdeithas er sefydlu a chynnal Ysgolion Sul yn Llundain ac yn y flwyddyn gyntaf sefydlodd bum ysgol ac erbyn 1795 yr oedd wedi dosbarthu 91,915 llyfrau spelian, 24, 322 o Destamentau a 5,360 o Feiblau y gofynnwyd amdanynt gan 1,012 o ysgolion yn cynnwys rhyw 65,000 o blant.

Llefodd y Mudiad i Gymru er y credaf y medrir dangos fod rhywbeth ar yr un cynllun wedi ei gynnyg yma'n barod. Erbyn 1785 yr oedd Charles o'r Bala wedi ei ddwyn i Gymru ond fod mwy o rai mewn oed yn mynychu'r Ysgol Sul yng Nghymru. Nid oedd Feiblau yng Nghymru a milwriai prinder Beiblau yn erbyn llwyddiant yr Ysgol. Gŵyr pob Cymro am hanes Mari Jones yn cerdded yn droednoeth i'r Bala er prynnu Beibl a dyma ond odid achlysur sefydlu Cymdeithas y Beiblau. Athrawon tâl oedd yr athrawon hyd nes i Athrawon Bolton dorri tir newydd drwy roi llafur cariâd i'r plant.

Ymhen blynyddoedd daeth Raikes yn hen wr ym mraich Crynwr ieuanc i'r fan y safai pan welsai'r plant yn "rebels ynfyd" ar y Sul. Adroddai'r hanes wrth ei gyfaill ieuanc deg ar hugain oed a ddaeth yn enwog ar fyr fel sefydlydd Cymdeithas Ysgolion Brydeinig a Thramor o'r hon y tarddodd Ysgolion dyddiol y wlad. Ymhen blynyddoedd gwnaeth Andrew Bell yr un gymwynas ag Eglwys Loegr drwy setydlu yr Ysgolion Cenedlaethol (National Schools).

Awgrymu awdur y pamffled gysylltiad rhwng Mudiad Raikes a Mudiad John Pounds y cobler o Bortsmouth. Y mae'n anodd heddiw paentio bywyd y wlad. Cyfnod o chwyldro ydoedd ac awgrymir i'r Ysgolion Sul wneud dros y plant a wnaeth y Diwygiad Methodistaidd i'r gwyr mewn oed. Dwed y Pamffled hanes y Cymdeithasau a gwelwn hanes Ysgol Sul y Parch. William Turner yn Newcastle-on-Tyne a'r Ysgolion yn Mirmingham. Yn 1790 sefydlodd Dr. Richard Price Ysgol Sul yn Hackney oherwydd ceir sôn am agor cronfa neu "Subscription for the Establishment of a Sunday School for girls and boys."

Nid yw un awgrym i'w ddibrisio. Gwelir cyflwr y plant wrth y presantau a roid am fynychu'r Ysgol Sul yn gyson. Rhoid esgidiau, neu ddilledyn neu grib wallt yn fwy mynych na llyfr. Yn Mirmingham rhoid yn ein Hysgolion Sul yn fore "Prizes of clothing and books are distributed annually for punctuality and good behaviour." Awgrymir hefyd fod "siwt newydd" yn cael ei rhoi gogyfer a'r cyfarfod blynyddol yn Hackney a mannau cyffelyb. Am dro byr rhyw ymdrechion personol ydoedd yr Ysgol Sul ac yn 1834 y sefydlwyd Cymdeithas yr Ysgol Sul genmym ni.

Nid rhywbeth newydd mohonno. Fe geid cynnyg i'r un cyfeiriad gan St. Charles Borromeo (1538—1584) ac yn yr Iseldiroedd yn 1608. Gwnaeth Luther yr un gymwynas yn 1529 a Knox yn yr Alban yn 1560. Yn Lloegr ceir Joseph Alleine (1634—1668) yn crynhoi'r plant ym Math. Robert Frampton (1622—1708). Richard Baxter (1615—1691) ac yn ddiweddarach Theophilus Lindsey.

Gwnaeth Raikes yn ddifeddwl hwyrach blannu yn well nag y gwyddai—Y mae'r Mudiad bellach wedi llonyddu.

Nid eir i'r Ysgol Sul mwy. Ni ofelir am lyfrau na dim. Nid oes raid mwyach ond cau'r drws. Tybed y medrwn fforddio hynny. Y mae dyfodol yr Eglwys a dyfodol gwerin a gwlad yn yr ieuenctid.

Cyn sicred a bod derwen yn y fosen, y mae byd o ddylanwadau yn yr Ysgol Sul. Ni ddysgir ynddi mwy na darllain na rhifo, ond erys yn ysgol cymeriad, lle y mae personoliaeth yn dylanwadu ar yr ieuanc a lle y gwneir y cyfan o gariad at y gwaith.

Hwyrach fod dydd ei defnyddioldeb wedi mynd. Derllyn ei hanes fel rhamant. Y mae'r pamffled bach yn ddiddorol am ei fod wedi gwau'n frâs hanes mudiad a lesolodd ein cenedl ni gan osod llawer un ohonom ar ben ffordd llwybr uniondeb.

Y mae'r cariad cyntaf at yr Ysgol Sul wedi oeri ond y mae galw am ryw offeryn tebig er cael yr ieuanc i fyw a gweithredu y goreu sydd ynddynt.

Mynner y Pamffled er cael calondid o'r newydd i roi amser a thalent i'r plant gan gofio,—

" Y winwydden a nyddir
Yn egwan iawn ac yn ir ;
Pan el yr hen gangen gu
Ni oddef ddim o'i nyddu."

O.

Y Parch. Evan Lewis, Cilgwyn, Ceredigion.

Yn 1839 yn ol cyfrif yn y llyfr, penodwyd saith o ymddiriedolwyr newydd. Eu henwau yn eu llawysgrifen eu hunain yw :—

David Davies, Gwerncolli.
William Davies, Felin Llangybi.
Evan Williams, Pantglaise.
David Jenkins, Derry Arms.
John Jones, Olmarchissa.
David Davies, Brynmadog.

Nid y rhestr leiaf mewn diddordeb yw'r un dan y pennawd "Enwau'r aelodau a dderbyniwyd i'r Cilgwyn, 1828." Dechreua gyda—

Rhif 1—Ann Evans, ar fynydd Llanfair; ac yn cynnwys
,, 3—David Davies, Coedpark, aeth yn Ddwyfundodwr 1828.
,, 20—John Jones, Glandulas-isaf, yn 76 oed.
,, 37—John Jones, mab hynaf John Jones, Olmarchisaf 1892 (yn awr yn 83 mlwydd oed gyda pa un yr ymddiddenais yr wythnos ddiweddaf). sydd wedi cymryd ei gymun yng Nghilgwyn am dros drigain mlynedd"; cynorthwyodd i symud cerryg y capel," a gofia fod Undodwr yn pregethu yn Hen Gilgwyn yn achlysurol," fod "Evan Lewis yn awr ac yn y man yn pregethu yn Llwynrhydowen, ond nid yn ei ffynyddoedd olaf"; fod o drigain i bedwar ugain o gymunwyr yn yr hen gapel: fod pob un yn aros ar ei draed i weddio: a bod gwasanaeth y bore am ddeg, ac yn parhau am ddwy awr, gyda pregeth dros hanner yr amser.

Pan yn ddeg oed, yn 1830, siaradodd a'i dadcu y pryd hwnnw'n gant a dwy flwydd oed, yr hyn a olyga i mi gael ymddiddan a dyn ym mis Rhagfyr 1903 a fu'n siarad a dyn anwyd yn 1728! P.S.).

Rhif 27 a'r olaf. Mary Williams, Glanllyllo, Ioanwr 10, 1874.

Yr unig ddamcaniaethau allaf gael hyd iddynt yn y gyfrol ddiddorol hon yw y rhai a gynhwysir yn yr hyfforddiadau i'r ymddiriedolwyr benodwyd yn 1839. Darllenwn fod y rhai dorrodd eu henwau yn glynu wrth a ganlyn:—

(*a*) I ddal allan yn glir i'r byd ddrwg mawr pechod, a'i fod yn peryglu heddwch a bywyd pob dyn.

(*b*) Mai Iachawdwr oddiwrth bechod yw ein Harglwydd Iesu Grist, ac ei fod wedi rhoddi aberth dros bechod (ac nid dros bersonau) ac ei fod yn ddigon o Iachawdwr i'r holl fyd.

(*c*) Mai pa ddaioni bynnag wna dyn yw'r hyn a'i gwna yn dderbyniol i'r Arglwydd. "Am ei fod yn rhoddi i bob dyn yn ol ei weithredoedd."

(*d*) Fod colledigaeth pob dyn yn dibynnu yn hollol arno ef ei hun. "Yn mhresenoldeb Duw a'r Eglwys ymrwyma'r ymddiriedolwyr eu hunain i lanw eu swydd yn ffyddlon ac heb dwyll, neu grwydro oddiwrth yr egwyddorion amddiffynnwyd yn y lle hwn o'r dechreuad'."

Un cwestiwn a roddais i amryw o hen bobl ymgomiais a hwynt yn ddiweddar ac a gofient "Hen Gilgwyn" neu a addolent ynddo oedd : Beth a arferid galw y gynulleidfa ?

Presbyteraidd
Arminaidd
Capel Siprys (Cymysg).

Ar farwolaeth Evan Lewis yr oedd y gynulleidfa'n dal i fod o hyd yn Fethodist Rhydd neu "Wesley Bach"; a dyna ydyw yr Eglwys yn parhau hyd heddiw.

Yn, neu tua 1772, bu ymneilltuad o "ryw hanner cant o addolwyr" mewn canlyniad i bregeth bregethwyd yn "Hen Gilgwyn" gan y Parch. David Lloyd, Brynllefrith. diwinyddiaeth pa un nid oedd dderbyniol gan rai o'i wrandawyr. ac achosodd eu enciliad. Arweiniodd hyn i ffurfiad y gynulleidfa Annibynol bresennol a addola yng Nghapel Ebeneser, Llangybi. Defnyddir y llestri cymun perthynol i "Hen Gilgwyn" eto gan y gynulleidfa bresennol. Dyddiant o 1830, a chynwysant ddau blat bychan a dau gwpan, o arian trydan, ac arnynt i gyd yn gerfiedig

Rhodd Mrs. Williams
I eglwys Cilgwyn
1830.

Ni allaf ddweyd beth ddaeth o unrhyw lestri cynharach. Teimlaf fod hanes Cilgwyn i'w sgrifennu eto a chyda'r amcan hwnnw mewn golwg rhoddaf y pethau hyn ar gof a chadw, a gwasgaf ymlaen yn fy ymchwil ddiflino am y "Llyfr Eglwys" colledig heb ba un bydd gwaith yr hanesydd yn ofer.

Yr oedd Evan Lewis yn hynod o garedig, a llawn o gydymdeimlad, gyda wyneb mwyn, a gwedd drwsiadus a boneddigaidd ac yn gwisgo clustdlysau aur. Gadawodd saith o blant.

Yr oedd yn un o'r sgrifennwyr destlusaf a welais erioed. Y mae rhai o'i bregethau yn fy meddiant yn Gymraeg a Saesneg ac y mae'r llawysgrif fel plat copr.

Symudodd o Lanllyr yn 1828 a chredaf iddo fynd i fyw i Abermarlais ond nis gwn am ba hyd yr arhosodd yno ond aeth yn y diwedd i fyw i amaethdy Pantygwas ym mhlwyf Trefilan ger

Ystrad yr hwn a brynodd fel y dywedwyd cisoes. Ei ŵyr James Lewis yw perchennog fferm Pantygwas ac orwyres a'i theulu sydd yno yn preswylio.

Ar ol bod yn weinidog ffyddlon yng Nghilgwyn a Llangybi am bedair blynedd a deugain bu farw yn ei fferm ar yr 28ain o Orffennaf, 1864, yn drigain a deunaw mlwydd oed, a chladdwyd ym mynwent Eglwys Ystrad. Cynhaliwyd gwasanaeth, ond cyn dodi'r arch yn y bedd, bu digwyddiad nodedig sef ar ddydd ei angladd, gwnaed cais gan aelodau capel Llangybi (Cilgwyn) i roddi'r arch i lawr y tu allan i'r eglwys, yr hyn a wnaed a thynnwyd y plat gan saer, yr hwn a'i gosododd ar y mur y tu fewn i gapel Llangybi gyferbyn a'r pulpud lle y'm hysbyswyd y gellir ei wel'd heddyw. Soniwyd, ond gyda pa faint o wir ni wn, fod Evan Lewis yn dymuno i hyn gael ei wneyd ond ni allaf sierhau am wirionedd yr hysbysiad. Ymddengys yn fwyaf tebygol iddo gael ei wneuthur o barch iddo a dyma'r eglurhad mwyaf tebig o'r amgylchiad.

Cyfansoddodd un D. Morgan farwnad ar ei farwolaeth ond ni roddaf ond y pennill olaf yn unig yma :

Unwn ninnau bob enwadau
Ein herfyniau tua'r ne,
Am i Awdwr pob bendithion
Ddanfon un i lanw ei le.,
A rhoi iddo genhadwri,
Ac yn meddu'r garreg wen,
Ac ar honno'r enw newydd
Mawr fo'r cynnydd mwy, Amen.

(Diwedd.)

Catecism.

(Pwy ddydd daeth Catecism Comwnistaidd i'm llaw. Nid oes imi ddim diddordeb ynddo ond rhof y catecism ag atebion newydd iddo.)

Beth yw Duw ? Duw yw'r Ysbryd Tragwyddol o gariad a daioni y sydd byth yn ymwneud am bethau uwch.

A ydyw'n wir na ddatguddiwyd erioed mo Duw ? Nac ydyw. Fe'i datguddir ymhopeth, ond yn bennaf yn y prydferth, y gwir a'r da.

Beth yw Nefoedd ? Nefoedd yw'r llawenydd o fod yn dda yma neu yn y bywyd tuhwnt i'r llen.

Pwy yw Iesu Grist? Ef oedd un o arweinyddion mwyaf dynion at Dduw a bywyd.

A ydyw yn fab Duw? Ydyw yn yr ystyr y medrwn ni oll fod yn feibion Duw ond inni fyw er dwyn i mewn deyrnas Dduw o frawdoliaeth dyn ar y ddaear.

A gododd Iesu Grist oddiwrth y meirw? Ni chododd corff Iesu oddiwrth y meirw ond y mae Iesu ei hun yn byw ym mlaen.

A dderbyniodd yr Apostolion yr Ysbryd Glan wedi marw Crist? Ysbryd Duw mewn dyn ydyw'r Ysbryd Glân. Yn ddiameu profodd yr Apostolion rhyw gyffro o'r Ysbryd wedi marw Iesu.

A esgynnodd Iesu i'r Nef? Dim yn llythrennol. Nid lle uwchlaw yr awyr mo'r nef ond ystad o fyw. Pasiodd Iesu ymlaen i fywyd uwch.

A ddychwel Crist ar Ddydd Brawd? Na wna. Nid yw'r syniad o ddychwelyd ond ffurf ar feddwl Iddewig yr ym wedi brifio trwyddi. I ni y mae pob dydd yn "ddydd y farn," canys yr ym bob dydd yn ffurfio neu yn niweidio'n cymeriad drwy yr hyn a feddyliwn neu a wnawn.

A ydyw Cristionogaeth i'w ddymuno? Os wrth Gristionogaeth y golygwn gariad a gwasanaeth at Dduw a dyn, ni fedrwn fyw ein bywydau uchaf hebddo. Os wrth Gristionogaeth golygwn "achub ein hunain," nid yw yn ddymunol ond ni ddysgwn ni mo hyn.

A oes Cymdeithas neu Gymundeb y Saint? Oes. Y mae'r holl ysbrydion a gâr ddaioni o'r un frawdoliaeth p'un ai yma neu "yr ochr draw."

Beth yw ein dyletswydd pan ddown i wybod nad oes Duw? Chwilio eilwaith nes darganfod fod Duw i ni y cyntaf a'r blaenaf yn ysbryd rheswm a daioni ynom.

A oes arnom ddyletswydd i Dduw? Oes. Gan fod Duw yn Wirioncdd a Daioni y mae'n ddyletswydd arnom i chwilio a dilyn yr uchaf a wyddom.

A ddylasem gymryd enw Duw yn ofer? Cariad yw enw Duw a ffol ydym o'i gymryd yn ofer.

A ydyw godineb yn bechod? Ydyw, oherwydd ei fod yn dwyn bob amser alar a dioddef i eraill.

A saif Cristionogaeth dros yr hyn y sydd iawn? Nid yw gwir Gristionogaeth ond bywyd yn ysbryd Crist, a saif pob gwir fywyd yn yr ysbryd hwn dros yr hyn y sydd iawn.

A ddylasem weddio? Wrth weddio codwn ein meddyliau at Dduw. Ni ddylasem feddwl y medrwn ni drwy weddi beri i Dduw wneud trosom a allwn ni wneud drosom ein hunain, ond dylasem drwy weddi geisio codi ein heneidiau at Ysbryd y Cariad Tragwyddol.

Dywed pregethwyr fod gweddiau yn ein helpu. Beth am hyn? Oherwydd mai cymundeb a'r Uchaf ydyw gweddi wir, wrth gwrs ei bod yn cynorthwyo.

Cyf. gan y GOLYGYDD.

DOS A GWEDDIA.

Doh E.

DAN DAVIES, L.T.S.C., GALLTYPLACA.

s	:f .m	m	:r .d	d	:t_1	|—	:—	l	:l .l	s	:f	m	:—	|—	:—
d	:d .d	d	:l_1	s_1	:s_1	|—	:—	t_1	:t_1.t_1	d	:r	d	:—	|—	:—
m	:s .s	s	:f	m	:r	|—	:—	f	:f .f	m	:s	s	:—	|—	:—
d	:d .d	d	:f_1	s_1	:s_1	|—	:—	s_1	:s_1.s_1	s_1	:s_1	d	:—	|—	:—

s	:f .m	m	:r .d	d	:t_1	|—	:—	t .l	:s .f	m .d	:r	d	:—	|—	:—
d	:d .d	d	:l_1	s_1	:s_1	|—	:—	s .f	:m .r	d .l_1	:t_1	d	:—	|—	:—
m	:s .s	s	:f	m	:r	|—	:—	r	:s .s	s	:f	m	:—	|—	:—
d	:d .d	d	:f_1	s_1	:s_1	|—	:—	s_1	:s_1.s_1	s_1	:s_1	d	:—	|—	:—

A.

l m	:m .m	r	:d	d	:t_1.l_1	t_1	:—	f	:f .f	f	:m .r	m	:—	|—	:—
f d	:d .d	t_1	:d	s_1	:—	s_1	:—	t_1	:t_1.t_1	t_1	:d .t_1	d	:—	|—	:—
d s	:s .s	s	:s	f	:—	f	:—	s	:s .s	s	:s	s	:—	|—	:—
f d	:d .d	r	:m	r	:—	r	:—	s_1.l_1	:t_1.d	r	:s_1	d	:—	|—	:—

E. **Ab.** **E.**

m l	:l .l	t	:t	d'	:—	l	:d'	t s	:m	m	:r	d	:m	:r	:—
s_1d	:d .d	m	:m	m	:—	m	:m	r d	:d	t_1	:s_1	t_1	:—	:—	:—
m l	:l .l	se	:se	l	:—	l	:l	se m	:s	f	:f	m	se :—	f	:—
d f	:f .f	m	:m	l_1	:—	d	:l_1	t_1 s	:s_1	s_1	:s_1	d	m :—	s_1	:—

A.

d s_1	:s_1.s_1	f	:f	m	:d	|—	:—	l	:s .s	f	:f	m	:—	|—	:—
$s_1$$r_1$	:r_1.r_1	s_1	:s_1	d	:d	|—	:—	d	:d .d	d .t_1	:l_1.t_1	d	:—	|—	:—
m t_1	:t_1.t_1	t_1	:r	s	:s	|—	:—	f	:s .s	l	:s	s	:—	|—	:—
d s_1	:s_1.s_1	s_1.l_1	:t_1.s_1	d	:m	|—	:—	f	:m .m	r	:s_1	d	:—	|—	:—

E. *rit. dim.*

s d'	:d'.d'	t	:l	s	:m	d	:—	d	:t_1.l_1	t_1.d	:r	d	:—	|—	:—
d f	:f .f	f	:f	m	:d	l_1	:—	f_1	:f_1.f_1	s_1.l_1	:t_1	d	:—	|—	:—
m l	:l .l	t	:d'	d'	:s	fe	:—	r	:r .r	r .m	:f	m	:—	|—	:—
d f_1	:f_1.f_1	f_1	:f_1	s_1	:—	l_1	:—	s_1	:s_1.s_1	s_1	:s_1	d	:—	|—	:—

Dos pan fo'r wawr yn torri,
Dos, ar ganolddydd, dos ;
Dos pan fo'r dydd yn darfod,
Ac ar y dywyll nos ;
Dos gyda meddwl puraidd,
Heb ofni dig na brad,
Dos i'th ystafell ddirgel,
Gweddia ar dy Dad.
Dos pan fo'r wawr yn torri,
Dos ar ganolddydd, dos ;
Dos pan fo'r dydd yn darfod,
Ac ar y dywyll nos.

Cymanfa Ganu Ceredigion.

DIDDOROL ydyw ysgrifennu hanes y Gymanfa Ganu eleni a minnau ymhell ond rhydd gyfleu i mi dynnu mwy i'r rhwyd. Fe'i cynhaliwyd eleni yng Nghapel Soar, Llanbedr (ac y mae cynulleidfa Soar yn garedig) ar ddydd Llun, Mehefin 16, ac nid oes raid dweyd fod y Capel yn orlawn—yr arweinydd, Dr. Hopkin Evans, yn ei hwyliau goreu a'r Côr yn canu ar ei eithaf. Llywyddwyd yn y bore gan Mrs. Oswald Williams, Llanbedr, yn y prynhawn gan y Parch. S. Evans-Bowen (ac yntau gyda llaw oddiar hynny yn ei wely yn Aberystwyth ond y mae'n galondid deall ei fod ar wellhad) ac yn yr hwyr gan Mr. Timothy Richards, Y.H., Ardwyn yn absenoldeb y gweinidog, y Parch. T. Eirug Davies, B.A., B.D.

Fe ddwed y rhaglen am y Pwyllgor gweithiol ac y mae'n diolch yn ddyledus i'r ysgrifennydd newydd Mr. Dan Davies, Belan House, Llanybyther, am daflu ei hun a'i holl enaid i'r gwaith. Gyda llaw nid wyf yn sicr na fedrid fod wedi rhoi gwell cefnogaeth iddo yn y gwahanol gapeli a thrueni ydoedd cael rhyw ddau neu dri chynnig i geisio taflu o'r neilldu "*Be not afraid*" (Mendelssohn's Elijah). Onid yw pob cynulleidfa yn fodlon gwneud ei goreu heb fympwy na dim y mae dyddiau'r Gymanfa wedi eu rhifo. Nid wyf yn gwneud dim ond awgrymu'n garedig gan ofyn i'r gwahanol gynulleidfaoedd pan fyddo'r tonau a'r anthemau wedi eu dewis yn rheolaidd i fynd ati i'w dysgu gan gofio fod *playing the game* yn hanfod crefydd. Fe'i gadewir fan yma am y tro, gan ddiolch i'r gwahanol gynulleidfaoedd am wneud y Gymanfa gymaint llwyddiant ag yr oedd. Nid wyf gerddor na mab i gerddor. Ni fuasai nodyn yn sierach pe bawn gartref ond fel yr ysgrifennai cerddor ataf drannoeth, "*Yr wyf yn teimlo ar ol pob Cymanfa Ganu fel pe bai chwant wylo arnaf.*" Dyna'r teimlad, a thra medr y Gymanfa Ganu gynhyrchu teimlad felly, y mae iddi ei lle a'i hamcan ym mywyd yr Eglwysi ac ym mywyd Cymdeithas.

Fe ddwed pob gwrandawr fod ein "*canu*" yn agos i'w le beth bynnag am ein syniadau. Cymeraf yn ganiataol fod Mr. Josiah Jones, Y.H., Garthowen, yn ei ffordd hamddenol a difyr ei hun wedi diolch i Weinidog ac Eglwys Soar am fenthyg y Capel a chredaf fod diolch hefyd yn ddyledus i dre Llanbedr am ei *chroeso* i'n Cymanfa Ganu bob tro y daw yma.

Cymanfa Ganu Plant Morgannwg.

AM y tro cyntaf, mae'n debig, yn hanes Undodiaid Sir Forgannwg, cynhaliwyd Cymanfa Gerddorol i Blant yng Nghapel Highland Place, Aberdâr, ar ddydd Mawrth, y ddegfed o Fehefin. Trefnwyd y Gymanfa gan Gymdeithas yr Ysgol Sul, ac o ystyried mai ym mis Chwefror yr awgrymwyd y peth gyntaf, bu yr anturiaeth yn hynod o lwyddiannus.

Daeth plant o saith o Ysgolion ynghyd i Aberdâr, ynghyd a nifer dda o aelodau hynaf yr Ysgolion—digon i lanw y Capel—a chawd canu rhyfeddol o felys ac ysbrydol. Un oedfa gawsom, am ddau yn y prynhawn, a llywyddwyd gan Mr. Gomer Ll. Thomas, Y.H., Merthyr. Dechreuwyd y cwrdd gan y Parch. Constance Harries. Mr. Lewis Edwards, Cefn Coed oedd arweinydd y canu, a chwareuwyd yr organ gan Miss S. George, Craig Isaf, Aberdâr.

Awd trwy ddeuddeg o donau wedi eu dethol o un o raglenni Cymdeithas Ysgolion Sul Gogledd Lloegr, a'r farn unfrydol ydyw fod y Gymanfa wedi ateb ei phwrpas, ac y bydd yn rhaid ymdrechu i'w gwneud yn wyl flynyddol yn Ne-Deheudir Cymru. Ein problem ydyw, yn wyneb amgylchiadau cyfyng ein pobl, a'r pellder rhwng rhai o'n hachosion, i'w gwneyd yn bosibl i blant pob un o'n hysgolion i ddyfod i'r wyl. Ond hwyrach y daw pethau yn well, ac y cawn ni y flwyddyn nesaf Gymanfa rhagorol eto, a phob un o Ysgolion Undodaidd y Sir yn cael eu cynrychioli yn helaeth ynddi.

Marwgofion.

MAWRTH 19, yn 53 mlwydd oed bu farw Watkin Davies, Tremavon, gynt o Maestroyddyn Fawr, Pumpsaint. Dioddefodd gystudd blin am rai wythnosau yn siriol ac amyneddgar "megis milwr da." Ym Maestroyddyn Fawr, un o ffermydd mwyaf a goreu yr ardal, y trigiasai, ynghyd a thair o'i chwiorydd yn amaethwr diwyd a llwyddiannus hyd tua deunaw mis yn ol, pryd rhoddasant y ferm i fyny, ac ymsefydlu yn Tremavon. Yr oedd yr ymadawedig yn un o'r cymeriadau prydferthaf a adwaenem, coleddai pawb yn ddiwahaniaeth o'i gymdogion a'i gydnabod syniadau uchel a pharchus amdano ar gyfrif ei fywyd distaw, ei ddull diymhongar, ei galon garedig, a'i ysbryd unplyg. Yr oedd yn naturiol garedig ac yn "fab tangnefedd," ac iddo air da gan bawb a chan y gwirionedd ei hun. Cymerai ddiddordeb yn holl symudiadau yr ardal, a gweithiai yn ddistaw ond yn effeithiol o'u plaid. Yr oedd yn aelod ffyddlon o Eglwys y Methodistiaid ym Mhumsaint, a chawsai yr achos goreu ei gefnogaeth bob amser, a'i gydymdeimlad llwyraf. Teimlir

bwlch mawr ar ei ol yn holl gylchoedd cymdeithas,—yn y gymdogaeth, yn yr Eglwys, ac yn arbennig ar aelwyd Tremavon lle yr oedd mor ddiddan ei gwmni a siriol ei groeso. Siom a cholled oedd colli brawd mor ddefnyddiol a da mor gynnar yn ei fywyd. Mae cydymdeimlad llwyraf y gymdogaeth gyda'r chwiorydd yn eu galar o golli eu brawd. Dydd Llun canlynol i'w farwolaeth daeth y gymdogaeth allan fel un gwr i dalu'r gymwynas olaf iddo trwy hebrwng ei weddillion i gladdfa'r teulu ym mynwent Caeronnen. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. J. Jenkins, Llanarthney; Canon Jenkins, Llanybyther; Giraldus Jones, Ffaldybrenin; a D. M. Thomas, Caio. Gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanedr. Yn y capel traddodwyd pregeth gan weinidog yr ymadawedig, y Parch. T. Ehedydd Jones, Pumpsaint. Yr oedd i'r holl wasanaeth rhyw awyrgylch dyner a llednais nodweddiadol o'r ymadawedig. Gadawodd chwiorydd a pherthynasau mewn galar trist o'i golli.

Ar y 17eg o Fai, yn 74 oed, bu farw Anne Williams, annwyl briod Evan Williams, 4, Lone Road, Clydach, gan adael priod a nifer o blant, tri brawd, dwy chwaer a chylch eang o berthynasau, mewn galar o'i cholli. Merch ydoedd i'r diweddar Daniel a Margaret Evans, a chwaer i William Evans, Felinban, ger Llanwnnen; eithr yng Nghlydach y treuliodd ymron yr oll o'i bywyd priodasol. Ni fu gryf o iechyd er's blynyddoedd, ond dioddefodd y cwbl yn amyneddgar. Dug y papurau lleol dystiolaeth uchel iddi fel cymdoges heddychol, a berchid gan ei chydnabyddiaeth ar gyfrif ei bywyd dichlynaidd. Bu'n ddefnyddiol cyson o'r Ymofynnydd hyd y diwedd. Dydd Mercher dilynol claddwyd ei gweddillion yng Nghladdfa Eglwys Sant John, Clydach, a gwasanaethwyd gan y ficer, y Parch. T. Morris.

Mehefin 13, Griffith Jones, Y Banc, Abergorlech, yn 79 oed. Er wedi cael oes faith ni welodd yr hen frawd yma ond ychydig iawn o afiechyd. Bu bron a mynd i ben yr yrfa heb wybod beth yw afiechyd a chystudd. Fisoedd yn ol serch hynny dechreuodd gael ei flino gan ddolur a drodd allan i fod yn un bur boenus. Yn herwydd fod y poenau'n ddirfawr aeth i'r Clafdy yn Aberystwyth i fynd dan driniaeth llawfeddygol ac yno ymhen ychydig ddyddiau y bu farw. Y Llun dilynol dygwyd ei gorff i Capelygroes a thrannoeth i hynny cymerodd ei angladd le. Daeth torf ynghyd i ddangos eu parch i'w goffadwriaeth a'u cydymdeimlad a'r brawd a'r chwaer a'r perthynasau eraill sy'n wylo ei golli. Yn unol a dymuniad y teulu pregethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. S. E. Bowen, Conwil Evans, B. P. Prytheroe (A.), Gwernogle a D. J. Howells, (M.C.), Brechfa,—y ddau olaf yn gymydogion i'r teulu. Credwn fod gan gymydogaethau cyfain air da i'r brawd a'r teulu hwn a phob amser sonid am "fechgyn y Banc" gyda pharch yn ymylu ar anwyldeb. "Bachgen" braf iawn oedd Griffith Jones; "bachgen" o rodiad union; o yspryd didwyll, gonest a hynaws. Yr oedd efe fel "teulu'r Banc" i gyd yn nodedig am ei garedigrwydd. Mae cymeriadau o'r fath yma—er yn syml a didwrw, yn cyfoethogi ardal a phan syrthiant gwelir eu heisiau. Bydd bywyd yn unig iawn i'r brawd sydd wedi ei adael ar ol canys yr oeddynt wedi cydfyw yn heddychol a hapus ar hyd blynyddoedd lawer.—E.O.J.

Hen wr o ysbryd ifanc,
Cymwynasgar oedd ei fyw:
Mae'r gwladwr syml yn huno—
I egwyddor bu yn *drue*.

Mor blaen ei air a'i fywyd;
Union fel ei gwys ei oes:
Doi'i deidiau draw i'r Capel—
Huna yntau 'Nghapel Groes.

I Gwmwrdu bu'n ffyddlon—
Tros y gwir ai at y stanc:
Ar faen ei fedd na thorrer
Dim ond,—
"*Un o foys y Banc.*"

Nodion yr Eglwysi.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Mwy na thebig y gwelir hanes Cymanfa Morgannwg mewn lle arall, ond carwn ddweud i oddeutu cant o honom fyned efo'r tren i Aberdâr eleni. Da oedd gennym gael y fraint o gyfarfod a hen gyfeillion i adnewyddu'r berthynas a chryfhau'r cwlwm crefyddol. A pha gyfrwng gwell na'r Gymanfa Ganu? Ofnwn na ddarfu i'r canu godi i'w safon gyntefig y waith hon, am fwy nag un rheswm; eto cawsom dri chyfarfod dymunol ym mhob modd. Hyderwn yn fawr yr eir ati y flwyddyn nesaf eto i baratoi ac i ymarfer y rhaglen yn well nag erioed. Nid sefydliad lleol yw'r Gymanfa Ganu, mae'n eangach, a'i chortynnau wedi estyn yn ddiweddar i fannau ereill. Credwn yn ddibetrus y deillia llesiant mawr drwyddi, ond da ni, gwnawn ein goreu i gadw'r canu ar safon syml canu cynulleidfaol.

Yn y Graig, Mai 3, cynhaliwyd budd-gyngerdd i weddw a phlant y diweddar frawd ieuanc, Johnny Bowen, Graig Road, Gellinudd, gynt o Drebanos. Arweiniwyd gan Mr. Jenkin Davies, Penygraig. Yr oedd y capel yn orlawn a'r gwrandawiad yn astud a'r rhaglen yn ardderchog. Gwasanaethwyd yn rhad gan frodyr a chwiorydd o Dreforis ac Abertawe, ac arddangosodd y gynulleidfa ei diolchgarwch iddynt am hynny. Mae clod nid bychan yn ddyledus i Mr. Ben Lewis, Treforis am drefnu ohono barti mor deilwng, ba barti a berfformiodd bob *item* yn artistig. A ganlyn ydynt enwau y rhai a wasanaethodd:—Soprano, Madam Sybil Griffiths, Fforestfach; Madam Sutton Miles, Abertawe; Tenor: Mr. Idwal Jones; Baritone: Mr. Tom Lewis, Treforis; Adrodd: Miss Winnie Lewis (Wyn Cynlais), Treforis; Cyfeilydd: Mr. Leslie John, Treforis. Trysorydd ac Ysgrifennydd: Mr. William Lewis, Graig Road, Alltwen ac Alfred Griffiths, Graig Road, Trebanos.

Eto, yn y Graig, nos Sul Mai 11, dan lywyddiaeth y gweinidog, cynhaliwyd cyfarfod o adrodd a chanu, a chanu'r piano, ar achlysuron ddau—yr Ysgol Sul yn y lle yn anrhegu'r brawd John W. Bowen y sydd newydd ymddiswyddo wedi bod yn ysgrifennydd yr Ysgol Sul am dros ddeng mlynedd ar hugain â *Waterman's Fountain Pen* hardd. Hefyd Cymdeithas yr Ysgol Sul yn cydnabod athrawon ac athrawesau a swyddogion a wasanaethodd am bum mlynedd ar hugain a thros hynny, a bathodynau ac arysgrifen ar bob un. Cyflwynwyd gan y Parch. D. G. Rees a Mr. L. Morgan, Clydach. Cyfeiliwyd gan Mri. H. H. Morgan ac Emrys Hopkin. Derbynwyr y bathodynau oeddynt: Mrs. Mary S. Edwards, Banos; H. H. Morgan; Ioan Davies; John Hopkin; John W. Bowen a Mrs. Mary E. Thomas. Mae chwech o'r saith uchod am ddweyd a chydnabod mai John Hopkin yw tad yr athrawon heddiw, gan mai efe ydyw'r hynaf o'r rhai sy'n fyw ac yn parhau'n ffyddlon gyda'r Ysgol Sul.

CYMANFA YSGOLION SUL CYLCH LLANDYSUL.—Cynhaliwyd hon nawn a hwyr Sul, Mai 25 ym Mwlchyfadfa. Mae'r Gymanfa hon wedi bod yn ffodus mewn tywydd o'r cychwyn a chafwyd hin ddymunol eleni eto. Yr oedd y capel yn orlawn yn y ddau wasanaeth ac aeth popeth yn hwylus. Holwyd yn y prynhawn a phregethwyd yn yr hwyr gan y Parch. S. E. Bowen. Dyma'r cyfle cyntaf i lawer ag oedd yn bresenol i glywed Mr. Bowen. Teimlem yn wir ddiolchgar iddo am ei wasanaeth ac i Mr. David Davies, Sychdy, am arwain y gân ac i Misses Ellen Thomas, Greengrove a May Evans, Gwaralltfardre am chwareu'r offeryn. Gofalodd boneddigesau'r Bwlch fod yno ddigonedd o fwyd blasus i bawb. Yr oedd yn llawenydd gennym glywed y Parch. T. Arthur Thomas yn tystiolaethu fod cynydd mawr yn Ysgolion Sul y Graig a Phantdefaid. Gwawried y dydd pan fo hyn yn wir am ein holl Ysgolion Sul.

PWYLLGOR Y GYMANFA GANU.—Cynhelir y Pwyllgor hwn yng Nghapelybryn, prynhawn Sul, Gorffennaf 13, am dri o'r gloch. Disgwylir i bob Eglwys ddanfon dau gynrychiolydd.—DAN DAVIES, *Ysg.*

AT Y GWEINIDOGION.—Carwn cael *block* o bob Gweinidog o fewn bytheffnos. Anfonwch, da chwi. *Dyma'r cais olaf.*

APEL.—Gofyn Dr. Tom Richards, Llyfrgellydd Coleg y Brifysgol ym Mangor, am rifynau cyflawn o'r YMOFYNNYDD 1920—1929, a 1918, a'u pris. Anfoner y pris i mi yn ddioed.—GOL.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Llywydd—Prifathro J. PARK DAVIES, M.A., B.D., Caerfyrddin.

— CYNHELIR —

Cyfarfodydd Blynyddol

— Y GYMDEITHAS UCHOD —

Ym Mwlchyfadfa

MAWRTH a MERCHER, GORFF. 29 a 30, 1930.

Gwasaneithir fel y canlyn—

NOS FAWRTH, am 6.30.—Mr. J. MARLES THOMAS; Parchn. D. CONWIL EVANS a D. G. REES.

MERCHER, am 10.—Y Pwyllgor.

MERCHER, am 2.—Parch. T. ARTHUR THOMAS; Prifathro J. PARK DAVIES (Anerchiad y Llywydd); Parch. H. H. C. JONES, B.A.

MERCHER, am 6.—Parchn. T. L. JONES; E. R. DENNIS.

Rhaglen y Pwyllgor—

(1) Darllen Cofnodion y Pwyllgor diweddaf. (2) Y "Grants" arferol.
(3) Safle Ariannol YR YMOFYNNYDD. (4) Adroddiad ar waith y Myfyrwyr.
(5) Ystyried y "Capital Fund." (6) Lle cynnal Cyfarfodydd yr Hydref.
(7) Ethol Swyddogion. (8) Unrhyw fater arall.

— CROSAW I BAWB. —

Fe gaiff y cyfeillion o Forgannwg G.W.R. Bus bob cam o Bencader i'r Bwlch.

E. O. JENKINS, Ysg.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVERSMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,

Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR SPRING AND EARLY SUMMER.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.